



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



Cynllun  
Gweithredu  
Ffonau  
Symudol

# Cynnwys

3 Cysylltedd Symudol

7 Atebion  
mewnlenwi

4 Cynllunio

7 Trafnidiaeth

5 Asedau  
cyhoeddus

8 Rhaglen Cyfathrebu Symudol  
Gwasanaethau Brys

5 Ardrethi  
annomestig

8 Digwyddiadau mawr a  
phrosiectau arbennig

6 Rheoleiddio

6 Arloesedd a thechnolegau  
datblygol

## Cysylltedd Symudol yng Nghymru

Mae cysylltedd symudol yn fwyfwy pwysig erbyn hyn, ac mae gan 90 y cant o oedolion Cymru ffôn symudol erbyn hyn.

Bellach, nid gwneud galwadau ffôn neu anfon negeseuon testun yw'r unig ddefnydd a wneir o ffonau symudol. Adroddir gan 57 y cant o ddefnyddwyr ffonau symudol yng Nghymru eu bod yn defnyddio ffôn symudol i fynd ar-lein.

O'r herwydd, mae gan bobl ddisgwyliadau uwch o'r signal symudol, ac mae cwsmeriaid am gael cysylltedd symudol lle maen nhw'n byw, lle maen nhw'n gweithio a lle maen nhw am deithio Mae busnesau hefyd eisiau manteisio ar y cyfleoedd y mae cysylltedd yn eu rhoi iddynt ac nid ydynt yn barod i oddef colli cyfleoedd oherwydd diffyg cysylltedd.

Mae'r pedwar cwmni sy'n darparu rhwydweithiau symudol, EE, O2, Three a Vodafone, yn buddsoddi'n helaeth eisoes yn y rhwydweithiau sydd ganddynt yn y DU.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod technolegau symudol yn fwyfwy pwysig erbyn hyn ac mae am greu'r amgylchedd priodol i annog buddsoddiad pellach mewn seilwaith symudol ac i hyrwyddo datblygiadau arloesol ym maes technolegau symudol.

Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r diwydiant ffonau symudol a'r rheoleiddiwr i ddarparu cysylltedd er mwyn diwallu'r gofynion hyn. Bydd y cynllun yn gymorth i greu'r amodau cywir ar gyfer darpariaeth symudol, gan helpu buddsoddiad i fynd ymhellach.

Mae rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethu, Symud Cymru Ymlaen, yn amlinellu pedair strategaeth drawsbynciol. Mae cysylltedd symudol nid yn unig yn cefnogi'n uniongyrchol y thema Unedig a Chysylltiedig drwy gysylltu pobl a chymunedau ond hefyd yn cefnogi'r tair thema arall drwy alluogi cysylltedd busnes, cyflawni gwasanaethau cyhoeddus a chyfleoedd dysgu. Mae mynediad at signal ffôn symudol y gellir ei ddefnyddio hefyd yn cefnogi holl nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae gan Gymru nodweddion penodol yn nhermau topograffi a dwysedd poblogaeth, nodweddion sy'n creu heriau i weithredwyr pan eu bod yn trefnu seilwaith symudol. Mae'r seilwaith gofynnol yn mynd y tu hwnt i'r mastiau a'r antenau i gynnwys cysylltedd ffeibr, cyflenwad pŵer a mynediad.

Mewn ardaloedd gwledig yn bennaf y mae'r heriau y mae taer angen mynd i'r afael â nhw ond rhaid i rwydweithiau hefyd ddarparu gwasanaeth ar gyfer safleoedd sy'n bodoli eisoes, er mwyn creu mwy o gapasiti yn yr ardaloedd trefol, mewn ymateb i'r galw cynyddol am ddata symudol. Hefyd, oherwydd bod technolegau newydd megis 5G yn cael eu cyflwyno, bydd angen dwysáu'r rwydweithiau trefol, gan gynnwys darparu ôl-gysylltiad ffeibr a phŵer i gefnogi hynny.

Mae'r heriau wedi eu hadlewyrchu yn adroddiad Ofcom, Cysylltu'r Gwledydd 2016, sy'n rhoi ciplun o'r ddarpariaeth signalau ffôn symudol yng Nghymru a'r gwledydd cartref eraill. Mae'r ystadegau, sy'n defnyddio data ynglŷn â'r ddarpariaeth signalau ffôn symudol o Fehefin 2016, yn dangos bod Cymru, yn y rhan fwyaf o fesurau darpariaeth, yn cael gwasanaeth sydd heb fod cystal â'r gwasanaeth yng nghaneddloedd eraill y DU.

Yng Nghymru mae poblogaethau sylweddol o fewn ardaloedd mynyddig a gwledig iawn. Mae'r cymysgedd hwn o boblogaeth a thopograffi yn creu heriau penodol iawn sy'n gofyn am lawer mwy o seilwaith er mwyn darparu signal ffonau symudol nag mewn rhannau eraill o'r DU. Os ydym am wella'r

ddarpariaeth o ran signal ffonau symudol, bydd angen mwy o safleoedd seilwaith yng Nghymru, gan gynnwys mewn ardaloedd lle mae golygfeydd hardd. Bydd angen sicrhau cydbwysedd rhwng cysylltedd symudol a'r effaith ar y dirwedd.

Mae ystadegau gan Ofcom ar gyfer trosglwyddiadau teledu yn ddefnyddiol wrth dynnu sylw at faint yr her. Er mwyn cyrraedd un filiwn o bobl, yn Lloegr mae angen 12 mast, yng Ngogledd Iwerddon mae angen 25, yn yr Alban mae angen 45, ac mae ar Gymru angen 67.

Yn ogystal, mewn rhai ardaloedd yng Nghymru mae maint y boblogaeth yn amrywio: er enghraifft, mewn digwyddiadau mawr ac mewn cyrchfannau i dwristiaid. Mae angen i'r rwydwaith gael digon o gapasiti i reoli hyn a darparu cysylltedd mewn digwyddiadau eiconig yng Nghymru.

Nid yw polisi telathrebu wedi'i ddatganoli i Gymru; fodd bynnag, mae dulliau ar gael i Lywodraeth Cymru y gellid eu defnyddio i hwyluso gwelliannau yn y ddarpariaeth o ran signal ffonau symudol.

Wedi dweud hynny, bydd yn bwysig asesu eu dichonoldeb a'u heffeithiolrwydd. Mae gan y diwydiant ffonau symudol rôl bwysig i'w chwarae o ran darparu'r dystiolaeth a fydd yn sail i ymyriadau yn y dyfodol.

Isod ceir naw maes allweddol i fynd i'r afael â nhw. Mae'r camau gweithredu yn cynrychioli man cychwyn, gyda gweithgaredd pellach yn cael ei ddatblygu ar sail y canfyddiadau o'r camau gweithredu cychwynol hyn.

# Cynllunio

Mae gan y system gynllunio ran allweddol i'w chwarae wrth gynyddu'r ddarpariaeth o signal ffonau symudol ar draws Cymru. Mae'n bwysig bod y drefn gynllunio yn addas ar gyfer Cymru ac yn adlewyrchu ei thopograffi a dosbarthiad y boblogaeth. Mae angen i'r drefn gynllunio gydbwysu'r manteision economaidd a chymdeithasol lleol sy'n deillio o ddarpariaeth (a chapasiti) signal ffonau symudol eang, ar y naill law, gyda'r angen i ddiogelu ardaloedd ein tirwedd sensitif ac amddiffyn amwynder preswyl ar y llaw arall.

Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn cydnabod bod mynediad eang at seilwaith telathrebu fforddiadwy a diogel yn bwysig i gymunedau a busnesau. Cafwyd galwadau hefyd i adolygu polisi cynllunio cenedlaethol i amlygu manteision economaidd darpariaeth ffôn symudol ehangach ac i sicrhau cysondeb yn y dull o weithredu.

Mae PCC yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd gan roi cyfle i adolygu a diweddarau'r elfennau sy'n ymdrin â thelathrebu. Mae'r diwygiadau hynny'n cynnwys cydnabod y cyfraniad ehangach y gall telathrebu ei wneud i economi Cymru, a hefyd y rôl sydd gan awdurdodau cynllunio lleol i'w chwarae o ran mynd ati yn eu cynlluniau datblygu i gynllunio mewn ffordd gadarnhaol ar gyfer telathrebu.

Mae'r diwydiant ffonau symudol wedi dweud yn glir y bydd y broses o osod seilwaith telathrebu symudol newydd ac uwchraddio'r seilwaith presennol yn haws ac yn gynt os newidir yr hawliau datblygu a ganiateir, gan gynnwys newidiadau i faint mastiau ffonau symudol, maint antena a mynediad brys i safleoedd seilwaith.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn edrych ar y posibiladau o ran cyflwyno newidiadau i'r Gorchymyn Hawliau Datblygu a Ganiateir yn y dyfodol, gan gynnwys newid yr hawliau presennol ar gyfer cyfarpar telathrebu. Cafodd yr hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer telathrebu eu diwygio ddiwethaf yn 2014.

Bydd y Cod Arferion Gorau ar Ddatblygu'r Rhwydwaith Ffonau Symudol a Nodyn Cyngor Technegol cynllunio (TAN) 19, yn cael eu diwygio oherwydd y cydnabyddir bod angen iddynt fod yn gyfredol ac adlewyrchu'r arferion gorau presennol.

Gyda chyflwyniad 5G yn ystod y blynyddoedd nesaf, mae adolygu'r drefn gynllunio yn gyfle i sicrhau y bydd y drefn honno'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r seilwaith angenrheidiol.

Yn y tymor canolig mae cyflwyno'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn gyfle i sicrhau bod seilwaith digidol wrth wraidd cynllunio yng Nghymru.

## Cam Gweithredu:

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil a fydd yn sail i unrhyw newidiadau yn y dyfodol i hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer offer telathrebu i wella cysylltedd ffonau symudol. Mae'r ymchwil hon i fod i gael ei chwblhau erbyn hydref 2017.

## Cam Gweithredu:

Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddarau Polisi Cynllunio Cymru (PCC) er mwyn sicrhau ei fod yn tynnu sylw at y berthynas gadarnhaol rhwng telathrebu a'r economi. Bydd PCC diwygiedig yn cael ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori erbyn gwanwyn 2018.

## Cam Gweithredu:

Bydd gweithredwyr rhwydweithiau ffonau symudol yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddiwygio ac, os bydd hynny'n briodol, i gydgrynhoi'r cod arferion gorau a Nodyn Cyngor Technegol (TAN19) ar ddatblygu seilwaith rhwydweithiau symudol.

# Asedau cyhoeddus

Mae gan y sector cyhoeddus yng Nghymru filoedd o asedau y gellid eu defnyddio i leoli seilwaith telathrebu ar dir cyhoeddus, priffyrdd cyhoeddus ac adeiladau.

Wrth ddefnyddio 5G yn y dyfodol a'r potensial i hynny gael ei ddarparu drwy ddefnyddio offer bach yn helaeth ar draws amgylcheddau trefol yn bennaf, mae asedau llai eraill yn debygol o fod o ddiddordeb, er enghraifft pyst lampau a physt arwyddion, pontydd, llifoleuadau ac ati.

Nododd Ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru dri dewis i wella'r modd y caiff y defnydd a wneir o asedau'r sector cyhoeddus eu hadnabod: creu cofrestr o asedau cyhoeddus; dosbarthu dogfennau canllaw i gyrff cyhoeddus; a chreu corff prydlesu sengl ar gyfer asedau cyhoeddus.

Prif bryder y diwydiant ffonau symudol oedd sut i hwyluso'r ffordd i helpu gweithredwyr rhwydweithiau ffonau symudol a darparwyr seilwaith a chyrff cyhoeddus i gydweithio. Roedd mynediad at dir priffyrdd cyhoeddus hefyd yn bryder mawr.

Bydd creu cofrestr o asedau cyhoeddus a dogfennaeth wedi'i safoni yn ganolbwynt gwaith datblygu pellach, gan gynnwys yr hyn sydd ar y gweill eisoes ynglŷn â chreu cofrestr o asedau cyhoeddus a fydd ar gael i'r cyhoedd.

## Cam Gweithredu:

Bydd Llywodraeth Cymru yn hwyluso perthnasoedd rhwng gweithredwyr rhwydweithiau ffonau symudol a darparwyr seilwaith rhwydweithiau ffonau symudol a rheolwyr ystadau a phartion eraill â buddiant o fewn cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru.

## Cam Gweithredu:

Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, i ymgymryd ag archwiliad o'r cofrestr asedau presennol, gan gynnwys y gofrestr arfaethedig sydd ar gael i'r cyhoedd ar gyfer asedau cyhoeddus cenedlaethol, ac asesu eu haddasrwydd ar gyfer eu defnyddio gan ddarparwyr seilwaith ffonau symudol.

# Ardrethi annomestig

Mae Ymchwil a gyflawnwyd ar ran Llywodraeth Cymru yn dangos bod ardrethi annomestig yn cyfrif am oddeutu 22 y cant o gyfanswm presennol costau refferiwr safleoedd mastiau ffonau symudol.

Gellid defnyddio gostyngiad mewn ardrethi annomestig i annog buddsoddi mewn seilwaith ffonau symudol, er enghraifft drwy leihau costau cyffredinol gweithredu safleoedd. Gallai hyn fod yn arbennig o berthnasol mewn ardaloedd lle mae'r achos dros fuddsoddi yn ymylol.

O gofio bod ardrethi annomestig yn helpu i ariannu gwasanaethau cyhoeddus, mae'n bwysig deall i ba raddau y gallai unrhyw gynlluniau i ostwng ardrethi annomestig effeithio ar benderfyniadau buddsoddi mewn safleoedd seilwaith ffonau symudol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gofyn am ddarpariaethau ym Mil Seilwaith Telathrebu y DU a fydd yn darparu ar gyfer rhyddhad ardrethi o 100% ar gyfer seilwaith ffibr newydd. Mae seilwaith ffibr yn rhan bwysig o osod seilwaith ar gyfer rhwydweithiau symudol.

## Cam Gweithredu:

Bydd Llywodraeth Cymru yn asesu effaith gostwng ardrethi annomestig ar gyfer seilwaith ffonau symudol newydd (mastiau, celloedd bach etc.) ar benderfyniadau buddsoddi gan y gweithredwyr ffonau symudol.

## Cam Gweithredu:

Os bydd y dystiolaeth yn awgrymu y byddai gostwng ardrethi annomestig yn annog buddsoddiad, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried rhoi rhyddhad ardrethi annomestig ar safleoedd mastiau ffonau symudol priodol.

# Rheoleiddio

Mae rheoleiddio gwasanaethau ffonau symudol a'r seilwaith telathrebu sy'n eu cefnogi yn gymorth pwysig wrth ddarparu capasiti a signal ffonau symudol gwell.

Mae'r rheoleiddio'n cael ei oruchwylio gan Ofcom ac mae'r ymyraethau rheoliadol yn cael eu gosod ar lefel y DU. Er enghraifft, mae rhwymedigaethau ynglŷn â darparu signal ffonau symudol wrth ddyfarnu trwyddedau sbectrwem, pa un a yw hynny'n cael ei fynegi fel canran o dirfas ynteu adeiladau, yn ddull o ddarparu gwasanaeth i'r lle mae pobl yn byw, gweithio a chymdeithasu, ond gellir ei bennu mewn modd sensitif o ran y Cenhedloedd, fel yn achos 4G.

O gofio'r hyn a amlinellir uchod ynghylch yr heriau penodol a ddaw yn sgil y cyfuniad o dopograffi a phatrymau anheddau mewn

rhai ardaloedd yng Nghymru, efallai y gellir cyfiawnhau ymyriadau rheoliadol gwahaniaethol. O ganlyniad, efallai y bydd angen dull o weithredu mwy daearyddol benodol i fynd i'r afael â chanlyniadau gwael, a gallai hyn fod yn berthnasol i sefyllfaoedd tebyg mewn rhannau eraill o'r DU sy'n wynebu heriau cyfatebol.

Mae rheoleiddio yn faes cymhleth a bydd angen i Lywodraeth Cymru weithio'n agos gydag Ofcom i ddeall y cyfleoedd a'r heriau a ddaw yn sgil rheoleiddio sy'n gwahaniaethu yn ddaearyddol.

## Cam Gweithredu:

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i ddeall y cyfleoedd a'r heriau a ddaw yn sgil rheoleiddio sy'n gwahaniaethu yn ddaearyddol, gan ymgysylltu ag Ofcom fel y bo'n briodol.

---

# Arloesedd a thechnolegau datblygol

Mae topograffi a dwysedd y boblogaeth yng Nghymru yn golygu bod heriau penodol yn wynebu'r dasg o sicrhau signalau ffôn symudol. I ymestyn y signalau cyn belled ag y bo modd, mae'n debygol y bydd angen atebion arloesol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

Bydd technolegau a fydd yn cael eu dyfeisio a'u profi ar dirlun Cymru yn rhai a fydd yn addas i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i hwyluso atebion arloesol ac i Gymru gael ei hystyried fel mainc arbrofi ar gyfer technolegau newydd, megis 5G, a dulliau newydd o weithio.

Mae Cymru yn parhau i chwarae rhan bwysig wrth gefnogi technolegau datblygol o fewn y sector cyfathrebu symudol. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru eisoes yn gweithio gydag EE yn Nyffryn Teifi i ymestyn y signal ffôn symudol gan ddefnyddio technolegau cell fach.

Yn yr un modd, o ganlyniad i bartneriaethau cydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru ac EE, gwelwyd treialu atebion technoleg cell fach ym Maes Awyr Llanbedr, i ddarparu gwasanaeth 4G parhaol gan ddefnyddio'r seilwaith band eang ffeibr presennol.

Ceir amrywiaeth o atebion sydd â'r potensial i ddarparu signal ffonau symudol mewn ardaloedd gwledig, megis Gofod Gwyn Teledu, a'r defnydd o dechnolegau newydd, gan gynnwys 5G, ar ffermydd.

Mae cynnig Dinas-ranbarth Bae Abertawe yn cynnwys nifer o fentrau gan gynnwys Gofod Gwyn Teledu a mainc arbrofi 5G.

## Cam Gweithredu:

Llywodraeth Cymru i barhau i gefnogi mentrau technoleg ddatblygol ledled y wlad gan gynnwys atebion i gefnogi busnesau gwledig.

## Cam Gweithredu:

Llywodraeth Cymru a gweithredwyr rhwydwaith symudol i weithio gyda'i gilydd i nodi cyfleoedd i ddatblygu a phrofi technolegau arloesi yng Nghymru.

# Atebion mewnlenni

Bydd y buddsoddiad a wneir gan y diwydiant ffonau symudol tuag at dargedau rheoleiddio yn gwella'n sylweddol gysylltedd ffonau symudol yng Nghymru, a hynny o ran llais a data. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd ardaloedd yng Nghymru a fydd yn dal i fod heb signal ffôn symudol y gellir ei ddefnyddio ac sy'n ddibynadwy.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i archwilio gyda'r diwydiant ffonau symudol sut y gellir rhoi sylw i'r bylchau hyn, un ai drwy fuddsoddiad pellach gan y diwydiant ffonau symudol neu drwy ryw fath o ymyrraeth a ariennir yn gyhoeddus. Gallai'r darpariaethau a amlinellir yn y cynllun hwn wella cysylltedd ymhellach gan leihau maint ymyrraeth bellach.

Y cam cyntaf fydd deall y cynlluniau defnyddio sydd gan weithredwyr y rhwydweithiau ffônau symudol ar hyn o bryd, i asesu graddfa a lleoliadau unrhyw ymyrraeth. Bydd angen ystyried blaenoriaethau ar gyfer ymyrraethau cyhoeddus, er enghraifft, i alluogi signalau ffôn symudol ar y rhwydwaith trafniadaeth.

## Cam Gweithredu:

Bydd Llywodraeth Cymru yn pennu hyd a lled unrhyw ymyrraeth gyhoeddus, a bydd gweithredwyr ffonau symudol, drwy Ofcom, yn rhannu gwybodaeth briodol am rwydweithiau i lywio datblygiad.

---

# Trafnidiaeth

Pwyslais allweddol rhaglen gyfathrebu symudol y gwasanaethau brys (gweler adran 8 isod) yw sicrhau llawer mwy o gysylltedd ffonau symudol ar hyd y rhwydwaith ffyrdd, ac mae hynny'n rhoi cyfle hefyd i wella gwasanaethau i ddefnyddwyr.

Mae'r defnydd o dir cyhoeddus sy'n gyfagos i briffyrdd hefyd yn rhoi cyfle pellach i wella'r signal ffonau symudol ar lwybrau trafniadaeth.

Mae gwell cysylltedd i ddiwallu disgwyliadau cynyddol teithwyr, gan gynnwys Wi-Fi a phwyntiau gwefru, yn ofynnol ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd a systemau Metro yn y dyfodol yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn trafod hefyd â Network Rail ynglŷn â chyfleoedd i ddefnyddio seilwaith y rheilffordd i ymestyn y signal ffôn symudol ar hyd coridorau'r rheilffordd.

## Cam Gweithredu:

Llywodraeth Cymru i archwilio cyfleoedd i wella'r cysylltedd ar rwydweithiau trafniadaeth.

# Rhaglen Cyfathrebu Symudol Gwasanaethau Brys

Bydd y Rhaglen Cyfathrebu Symudol Gwasanaethau Brys yn darparu cenhedlaeth nesaf y system gyfathrebu ar gyfer y tri gwasanaeth brys (yr heddlu, tân ac achub, ac ambiwlans) a defnyddwyr eraill a ddynodir sy'n gweithio er lles diogelwch y cyhoedd. Cafodd y contract i ddarparu'r seilwaith sy'n cefnogi Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys ei ddyfarnu i EE. Fodd bynnag, mewn rhai ardaloedd, gan gynnwys rhai ardaloedd gwledig iawn yng Nghymru, mae'r Swyddfa Gartref yn darparu cyllid i godi mastiau lle nad yw'n ddichonol i EE wneud hynny.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd â rhaglen i ystyried sut y gellid diogelu ar gyfer y dyfodol y drefn lle mae mastiau ffonau symudol newydd yn cael eu cyllido gan y Swyddfa

Gartref, lle yr ystyrir y gellid cyflawni manteision ehangach. Bydd hyn yn cynnwys adeiladu seiliau mwy ar gyfer mastiau a mastiau y gellir eu hymestyn yn rhwydd dros amser. Bydd hyn yn caniatáu i weithredwyr ffonau symudol lluosog i osod eu hoffer trosglwyddo i ddarparu signal ffonau symudol mewn ardaloedd anghysbell lle nad yw codi mast yn fasnachol hyfyw.

## Cam Gweithredu:

Llywodraeth Cymru i weithio gyda'r Swyddfa Gartref i ddiogelu mastiau ar gyfer y dyfodol lle bo hynny'n briodol.

## Cam Gweithredu:

Llywodraeth Cymru i archwilio sut y gellid gwella safleoedd mastiau ymhellach.

---

## Digwyddiadau mawr a phrosiectau arbennig

Mae Cymru yn cynnal nifer o ddigwyddiadau mawr a phroffil uchel sy'n rhai blynyddol neu untro, er enghraifft, Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Eisteddfod Ryngwladol, yn ogystal â nifer o ddigwyddiadau chwaraeon. Mae rhai o'r digwyddiadau'n cael eu cynnal yn yr un lleoliad bob blwyddyn ac mae rhai'n symud o gwmpas y wlad.

Mae sicrhau bod pob digwyddiad yn cael ei wasanaethu gan wasanaeth ffonau symudol dibynadwy y gellir ei ddefnyddio yn dod yn gynyddol bwysig, nid yn unig i wasanaethu ymwelwyr ond hefyd er mwyn i drefnwyr ac arddangoswyr allu cynnig gwasanaethau a darparu gwybodaeth yn y digwyddiadau.

O ganlyniad i weithio cydweithredol rhwng EE, Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru, fe godwyd mast parhaol ar faes sioe'r Gymdeithas yn Llanellwedd i wasanaethu nid yn unig yr ymwelwyr ar faes y sioe ond hefyd y gymuned leol. Dylid efelychu'r dull gweithredu cydweithredol hwn ar gyfer digwyddiadau mawr eraill.

## Cam Gweithredu:

Bydd Llywodraeth Cymru pan fo angen yn hwyluso perthynas rhwng gweithredwyr rhwydweithiau ffonau symudol a threfnwyr digwyddiadau mawr.

## Cam Gweithredu:

Llywodraeth Cymru i lunio rhestr o ddigwyddiadau sydd yn denu llawer o bobl.